

## *Gweddiwch dros* *Cenhadaeth* Newydd i **Gymru**

### **Harlech – Porthmadog – Machynlleth – Dolgellau:**

Gweddiwch y bydd arweinwyr ac eglwysi yn ardal **Harlech a Phorthmadog** yn cael nerth corfforol ac ysbrydol i wneud y gwaith o efengylu.

Gweddiwch y bydd Duw yn agor calonnau ac yn meddalu pobl, ac y cawn weld troedigaethau. Gweddiwch y caiff teuluoedd ifanc eu harwain atom i'n helpu i gryfhau'r dystiolaeth.

Gweddiwch dros dri gweinidog lleol, Dewi, Ben a Pete, sydd â pherthynas dda â'i gilydd ac sy'n cwrdd yn fisol i weddio a chrisialu'r weledigaeth ar gyfer yr ardal.

Diolchwch i Dduw am fendithion diweddar yn eglwys gymunedol **Machynlleth**. Yn arbennig, diolchwch am y ddau deulu newydd sydd wedi dod i'r capel, ac sy'n chwarae rhan flaenllaw ym mywyd a gweinidogaeth yr eglwys.

Gweddiwch am ddoethineb ac arweiniad oddi wrth yr Arglwydd wrth i rai aelodau blaenllaw symud o'r ardal.

Gweddiwch hefyd am ddyfodol y clwb plant, a'r weinidogaeth i rieni a phlant bach yn sgil y newidiadau hyn.

Gweddiwch y bydd Duw yn parhau i fendithio, ac y byddwn yn parhau i weld dynion, marchod a phlant yn cael eu hachub. Gweddiwch y bydd y Cristnogion newydd hyn yn cael eu dwyn i aeddfedrwydd ysbrydol yn fuan, ac y byddant yn chwarae rhan weithredol a chryf ym mywyd yr eglwys a'r gymuned.

Wrth ystyried y bendithion a'r twf a welwyd ym Machynlleth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gweddiwch y byddwn yn clywed newyddion da tebyg am **Ddolgellau** yn y misoedd nesaf.

Gweddiwch am dystiolaeth y Cristnogion sy'n byw yn y dref a'r ardal, ac y byddai Duw'n eu bendithio wrth iddynt geisio'i anrhydeddu ef. Gweddiwch hefyd y bydd yr Arglwydd yn galw Cristnogion sy'n llawn o'r Ysbryd a gwirionedd i blannu gwaith newydd neu drawsffurfio yn y dref.

Mae'n dda clywed am gyfarfod gweddi wythnosol a sefydlwyd gan y Rheithor Tim Webb 18 mis yn ôl, sy'n ceisio Duw dros waith yr Efengyl yn yr ardal.

### **Y Trallwng – Llanfair ym Muallt – Talgarth:**

Gweddiwch dros dref Y Trallwng. Mae'n dref sy'n tyfu – mae ganddi farchnad dda byw bwysig a pheth diwydiant ysgafn, a chymysgedd dda o bobl yn byw o'i mewn. Mae'r posibilrwydd yma am waith Efengylaidd cryf.

Gweddïwch yn arbennig dros Eglwys Bedyddwyr Chelsea Lane wrth iddynt geisio symud ymlaen mewn gweinidogaeth a chenhadaeth.

Gweddïwch y byddai eu cysylltiadau ag ysgolion lleol ac â'r cyngor sir yn profi'n arwyddocaol dros ddylanwad yr Efengyl yn y fro.

Gweddïwch y bydd eglwys hyfyw yn ymddangos a thyfu yn **Llanfair ym Muallt**. Mae'r dref yn fwyaf enwog am ei hagosrwydd at Lanelwedd, lle mae'r Sioe Frenhinol yn cael ei chynnal yn flynyddol, ynghyd â nifer o ddigwyddiadau eraill. Mae sawl ymgais wedi bod dros y blynnyddoedd diwethaf i gynnull Cristnogion yn Llanfair ym Muallt, ond nid oes un ohonynt wedi para.

Gweddïwch y bydd credinwyr lleol yn cael eu hannog a'u cysylltu â'i gilydd. Gall Cristnogion yr ardal deimlo'n unig, ac yn aml maent yn teithio o Lanfair ym Muallt i drefi cyfagos fel Llandrindod i rannu cymdeithas â Christnogion eraill.

Gweddïwch dros benwythnos teuluol Cristnogol ar gyfer Cymru gyfan, a fydd yn cael ei gynnal ar faes y sioe yn haf 2017.

Gweddïwch y bydd mynegiant newydd o eglwys yn cael ei ffurfio yn **Nhalgarth**. Nid yw adeilad y capel olaf sydd ar ôl yn ddiogel, a'r eglwys blwyf leol yn unig sy'n weddill.

Fodd bynnag, mae arwyddion o obaith mewn amgylchiadau anodd. Gweddïwch dros Ifor Williams, sydd wedi cael ei wahodd i fod yn gaplan ar y clwb rygbi lleol. Penderfynwyd ei benodi wedi 3 hunanladdiad yn y gymuned, ac mae'r clwb am gynnig cefnogaeth ysbrydol.

### **Y Pîl – Abertawe:**

Gweddïwch y bydd yr Arglwydd yn sefydlu gwaith egin eglwysi newydd yn ardal **Abertawe** (Salm 90:17), sef Mission Church Morriston, Grace Church y Clase a Hope Church Fforestfach.

Gweddïwch dros Derek Rees sy'n gweithio dros yr efengyl yn Seion Waunarlwydd ac yn Gomer Abertawe, yn plannu a chryfhau eglwysi gydag Undeb Bedyddwyr Cymru.

Mae angen mawr yn **Y Pîl** am waith newydd efengylaidd, felly gweddïwch y bydd yr efengyl yn mynd rhagddi ac yn cael ei gogoneddu (2 Thesalonïaid 3:1).

Gweddïwch hefyd y bydd yr Arglwydd yn plannu a dyfrio gwaith efengylaidd a fydd yn tyfu a bendithio'r gymuned. Gweddïwch yn arbennig dros Vine Church, sy'n cwrdd yn Y Pîl ar 4ydd Sul y mis (Mathew 13:31-32).

### **Ynys Môn:**

Mae yna sawl eglwys efengylaidd ar yr ynys: Amlwch, Biwmares, Caergybi, Llangefni, Rhosneigr. Mae'r rhain gan fwyaf yn fychan, ac yn brin o arweinwyr iau. Gweddïwch drostynt, a gweddïwch bydd mwy o arweinwyr yn ymddangos.

Mae cannoedd o Gristnogion yn byw ar yr ynys ond maent unai yn teithio i'r dinasoedd i fynychu eglwys, neu tydyn nhw ddim wedi ymrwymo i un achos yn neilltuol.

Gweddïwch y bydd Cristnogion yn perchnogi ac yn ymrwymo i eglwysi lleol, er mwyn cwrdd â anghenion eglwysi ac achos yr efengyl ar yr ynys.

Gweddïwch am dystiolaeth efengylaidd hyfwrdd trwy drefi a phentrefi Ynys Môn.

### **Blaenau Ffestiniog – Corwen:**

Gweddïwch os gwelwch yn dda dros **Flaenau Ffestiniog** a'r cyffiniau, yn enwedig dros waith yr Efengyl yn Gymraeg.

Gweddïwch y bydd yr Arglwydd yn galw Cristnogion i'r ardal, i fyw, gweithio, gweinidogaethu ac i dystio i fawredd Duw a gwirionedd a gogoniant y newyddion da sydd yn efengyl Crist.

Gweddïwch y byddwn yn clywed sôn am bethau da yn digwydd yn y dref yn y dyfodol agos; am eneidiau'n cael eu hachub, am eglwys yn cael ei phlannu, neu drawsffurfiad rhyfeddol yn yr hyn sy'n bod eisoes.

Parhewch i weddïo dros David a Becky a'u gweinidogaeth ffyddlon yn yr ardal, ac y bydd yr Arglwydd yn agor drws i rywun ymuno a'r tîm.

Gweddïwch dros **Gorwen** a'r ardal. Rhowch ddiolch am Martin a'i waith ffyddlon fel ficer yn yr ardal, a dros y Cristnogion eraill sy'n byw a gweinidogaethu yno.

Gweddïwch y bydd y cyfarfod gweddi sy'n cwrdd i weddïo dros yr ardal yn mynd o nerth i nerth, ac y gwelir Duw yn ateb gweddiâu yn nerthol, ac y clywn am ddyinion, merched a phlant yn cael eu hachub ac yn tyfu yn y ffydd.

Gweddïwch yn yr un modd am y pentrefi ogyrch Corwen sydd â llawer o siaradwyr Cymraeg. Mae cymaint o gapeli wedi cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae eraill yn profi dirywiad, lleihad mewn niferoedd ac yn y blaen. O na fyddem yn clywed am waith yr Arglwydd yn ffynnu, a Christ yn cael ei ogoneddu fwyfwy yn yr ardal hon.

### **Tregaron – Llandysul:**

Ychydig yw'r eglwysi efengylaidd yng Ngheredigion. Mae Carwyn Arthur yn arwain eglwysi yn ardal **Tregaron**, ac mae'n gweld mwy o bobl yn mynychu ac yn dangos diddordeb. Mae'n dyheu am weld bywyd newydd ym mhobl yr ardal! Gweddïwch y gwelwn bobl yn cael eu hachub.

Rhaid i ni weddïo y bydd pobl yn dod i ffydd drwy Geredigion, Gogledd Penfro a Gogledd Sir Gâr.

Mae Steff a Gwenno Morris bellach wedi symud i **Landysul** i baratoi i blannu eglwys.

Gweddïwch drostyn nhw, a gweddïwch bydd Duw yn galw eraill i ardaloedd anghenus, i blannu neu arwain eglwysi sy'n ei chael hi'n anodd.

### **Abergwaun – Hendy-gwyn ar Daf – Sanclêr:**

Rhowch ddiolch am y gyfres o Astudiaethau Beiblaidd ar gyfer pobl sy'n chwilio, a gynhaliwyd yng Ngwesty Bae **Abergwaun** – un gyfres adeg y Pasg, a'r llall adeg y Pentecost. Hysbysebwyd yr astudiaethau yn y papur lleol, ac mae'r nifer sy'n mynychu wedi bod yn galonogol – daeth nifer sydd heb astudio'r Beibl erioed o'r blaen. Gweddïwch dros y gwaith efengyl a'r gwaith bugeiliol sy'n deillio o'r mentrau hyn.

Mae Paul Dando, bugail Grace Church Narberth, yn adrodd fod yr eglwys wedi cychwyn grŵp sy'n cwrdd ganol yr wythnos yn Saundersfoot, ac maent yn anelu i wneud yr un fath yn fuan yn **Hendy-gwyn ar Daf**. Gweddïwch bydd y fenter hon yn ffynnu ac yn cael effaith yn Hendy-gwyn.

Mae Living Water Fellowship yn **Sanclêr** yn parhau i ymgasglu ar y Sul, ac mae'r arweinydd Steve Whitton yn gofyn i ni i weddïo gydag ef y bydd pobl yn cael eu hachub yn y dref.

Mae angen gwaith Cymraeg cryf yn neu ogyrch Sanclêr. Gweddïwch y bydd hyn yn ymddangos.

Mae nifer o gredinwyr yn yr ardal sydd ddim yn mynychu unrhyw eglwys ar y Sul. Mae eraill yn teithio i Gaerfyrddin. Gweddïwch y bydd y rhain yn cael hyd i gartref ysbrydol mewn cymdeithas leol o Gristnogion.

### **Rhondda:**

Gweddïwch dros undod rhwng arweinwyr ac eglwysi. Mae rhwydwaith o arweinwyr yr eglwys yn Rhondda wedi bod yn cwrdd ers rhai misoedd, ac mae cyfeillgarwch yn tyfu ymhlith arweinwyr yn y Rhondda Fach a'r Rhondda Fawr.

Gweddïwch dros genhadaeth ac efengyl ffrwythlon. Gwelwyd nifer da o dröedigaethau ymhlith eglwysi'r Rhondda'n ddiweddar. Bydd cenhadaeth mewn partneriaeth ag eglwysi o'r UDA yn digwydd rhwng y 9fed-17eg o Orffennaf.

Gweddïwch yn benodol dros weinidogaeth Ben a Lois Franks yn Hope Church, eglwys sy'n canoli ar y teulu a lansiwyd yn 2013 yn Tonypandy, wrth i'r eglwys symud i mewn i adeilad parhaol.

Mae llawer o weddi yn digwydd ar hyn o bryd yn y Rhondda. Rym ni'n gweddïo y gwelwn hinsawdd ysbrydol newydd, lle bydd pobl yn dod i ffydd ymhlith pob un o'r eglwysi, yn enwedig trwy glybiau ieuencid, llan llanast a banciau bwyd. Os gwelwch yn dda ymunwch â ni yn y weddi hon.